| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Pennaeth** |
| **Lleoliad:** | **Ysgol Gymraeg Bro Helyg** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Addysg** |
| **Cyfeirnod:** | **BG06048** |
| **Cyflog:** | **Ystod Arweinyddiaeth L15-L21* (£67,794-£77,769 y flwyddyn). Mae'r swydd hon hefyd yn cynnwys codiad cyflog o dri pwynt arweinyddiaeth ychwanegol o'r cyflog cychwynnol fel taliad dros dro.** |
| **Oriau:** | **Llawn-amser** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **Tymor yr Haf 2025, Dydd Llun 28ain o Ebrill 2025 (neu cyn gynted â phosib)** |
| **Nifer ar y gofrestr:** | **309, yn cynnwys Meithrin (329 yn cynnwys Ysgol Gymraeg Tredegar)** |

**Hysbyseb Lawn**

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion Blaenau Gwent. Wedi'i lleoli ar gyrion Brynmawr, mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth eang fodern ac adnoddau rhagorol. Fe'i gwasanaethir gan rwydwaith ffyrdd yr A465 sy'n sicrhau bod modd cyrraedd yr ysgol yn hawdd o Gasnewydd, Caerdydd a rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru.

Dymuna'r llywodraethwyr benodi Pennaeth arloesol, ysbrydoledig sy'n ymarferydd rhagorol ac wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus sicrhau bod yr ysgol yn darparu'r cyfleoedd gorau i'r holl ddysgwyr a chwarae rhan weithredol yn ehangu a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent a'r rhanbarth ehangach.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn ysgol groesawgar a chyfeillgar gyda staff sydd yn ymroi'n llwyr i greu ethos cadarnhaol a gofalgar. Datganiad cenhadaeth yr ysgol yw "Gosod sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol disglair".

Mae'r swydd hon yn cynnwys cyfrifoldeb Pennaeth dros dro Ysgol Gymraeg Tredegar. Adolygir y trefniant yn rheolaidd. Mae Ysgol Gymraeg Tredegar yn ddarpariaeth ysgol eginol yn nhref Tredegar. Mae adeilad pwrpasol yn cael ei datblygu ar ei chyfer ar hyn o bryd. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gartref i tua 20 o

blant ac fe'i llywodraethir gan fwrdd llywodraethol Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Ar hyn o bryd, mae uwch arweinydd a thîm o staff ymroddedig yn yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr wedi ymrwymo i benodi Pennaeth sydd:

- Wedi ymrwymo i barhau i weithredu a datblygu ein taith gwricwlwm a rhannu'r arfer dda sydd yn bodoli ar draws y rhanbarthau.
- Â'r weledigaeth ar gyfer datblygiad pellach er mwyn sicrhau cyflawniad a pherfformiad uchel.
- Medru sicrhau rheolaeth effeithlon ac effeithiol o'r gyllideb a'r holl adnoddau o fewn yr ysgol.
- Yn meddu ar sgiliau arwain, rheoli, cyfathrebu a phersonol rhagorol.
- Yn gallu ysbrydoli a grymuso staff i gyflwyno cwricwlwm uchelgeisiol a dilys, a thrwy hynny greu addysgwyr cyfrwng Cymraeg medrus iawn a thrywydd datblygu a dilyniant clir i bawb.
- Yn gallu hyrwyddo gwaith tîm effeithiol a gwella lles staff, dysgwyr a chymuned gyfan yr ysgol.
- Yn hyrwyddo gwerthoedd sy'n cynnal ysgol ddisgybledig, drefnus gydag ethos gofalgar.
- Â'r gallu i adeiladu ar y cysylltiadau da iawn sydd wedi'u sefydlu gyda'n teuluoedd, y gymuned ehangach, cyflogwyr lleol ac ysgolion cyfagos.

Bydd y llywodraethwyr yn cefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol; a thrwy hynny creu arfer o ddysgu a datblygu effeithiol ar draws yr ysgol a'i chymuned.

Dymuna'r llywodraethwyr i'r ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais lawn a manwl.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

**Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i'r deiliad swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol Manylach yn cynnwys rhestr gwahardd rhag gweithio gyda phlant.**

Mae'r swydd angen cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg dan gategori Athro/Athrawes Ysgol a bydd angen i'r cofrestru fod yn ei le cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ar gael ar y wefan ddilynol http://www.ewc.wales/ neu drwy ffonio 02920 460099.

| | |
|---|---|
| **Ymweliad Ysgol:** | **12fed o Dachwedd 2024, 10:30-12:30. Cysylltwch â Gavin Williams (williamsg1027@hwbcymru.net ar 07963557160) i drefnu'r ymweliad** |
| **Dyddiad Cau:** | **Dydd Iau'r 21ain o Dachwedd 2024, Canol Nos** |
| **Rhestr Fer:** | **Dydd Iau'r 28ain o Dachwedd 2024** |
| **Dyddiadau Cyfweld:** | **Dydd Iau'r 5ed a dydd Gwener y 6ed o Ragfyr 2024** |

## GWNEWCH GAIS YN DEFNYDDIO'R DDOLEN ISOD:-

## http://blaenau-gwent.3dmarcomms.com/